

Pwerdy/Powerhouse Gwybodaeth Ilogi 'r Oriol Gelf

Gwybodaeth am y Ganolfan a'r Oriol.

Mae ein "Canolfan Gymunedol a Chelfyddydau" yn cael ei chefnogi gan wirfoddolwyr o'r gymuned leol, ac rydym yn darparu amgylchedd o ansawdd uchel gyda dewis o ofod naill ai yn ystafelloedd "Teifi", "Tyweli" neu yn y balcony dan dô. Mae gan bob ystafell system crog proffesiynol. Mae pob gofod o faint gwahanol, byddem yn argymhell i chi gysylltu a ni er mwyn trefnu amser a dyddiad cyfleus i chi ymweld ar orieler mwyn mesur y gofod. Mae gyda ni gegin weithredol llawn gyda oergell fechan a ffwrn mecrodon. Rydym yn gofyn am gyfraniad am de a choffi os bydd defnydd o gyflenwad y Pwerdy yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cost trydan.

Mae'r canolfan wedi ei gosod ar gyfer eich dibenion chi i arddangos a goruchwilio eich arddangosfa bersonol. Nid ydym yn medru cynnig peiriant talu a cherdyn na pheiriannau arian am unrhyw werthiannau. Taliadau uniongyrchol i'r artist. Mae'r ystafelloedd yn addas ar gyfer gweithdai, darlith, ac arddangosiadu. Byrddau a chadeiriau a thafunydd (Gellir llogi'r tafunydd) at eich defnydd. Gellwch ddefnyddio ein cyfrifiadur ac argraffydd (Gwnewch gais am y cyfrinair) wedi ei leoli yn y gegin /swyddfa. Gofynnir tâl rhesymol am ddefnyddio'r argraffydd.

- Wi-fi am ddim (Gwnewch gais am y cyfrinair)
- **Cyfrifoldeb yr artist fydd yswiriant am unrhyw golled neu ddifrod.** Mae'r adeilad yn cael ei warchod gan system larwm a ddaw'n weithredol wrth adael yr adeilad, bydd y larwm yn cael ei ddileu wrth gyrraedd. (Gwnewch gais am y côd).
- Cyfrifoldeb yr artist yw gosod a symud arddangosfa bersonol. Dim tyllu'r wal, Paent gwyn i guddio unrhyw farciau. Tynnu ymaith unrhyw sticeri.
- Yr artist sy'n gyfrifol am farchnata'r arddangosfa ynghyd a'r gwahoddiadau ar gyfer arddangosiad preifat.
- Cyfrifoldeb yr artist fydd trefnu'r arddangosfa breifat. Mae'r arddangosfa breifat ar ddisgresiwn yr artist.

Taliadau.

£2.50 yr wythnos am bob wal a ddefnyddir comisiwn o 10% ar bob gwerthiant.

Codir tal ychwanegol am weithdy/ai. £6 yr awr gyda un taliad o £4 am ddefnyddio'r gegin.

Bydd y cod ar gyfer mynediad a chau yn cael ei roi i'r llogwr a chyfrifoldeb y llogwr fydd agor a chloi'r adeilad (bydd cyfarwyddiadau'n cael eu cynnig /rhoi), Bydd blaendal o £20 pan fydd allwedd yn cael ei throsglwyddo i'r llogwr.

Cyhoeddusrwydd.

Bydd unrhyw bosteri a gwybodaeth ddigidol (fyddwch yn ei dylunio a'u darparu) yn cael eu arddangos ar ein tudalen we. Os oes angen gall cylch lythyr y Pwerdy gynnig manylion cyswllt a datganiadau i'r wasg. Mae cyfryngau cymdeithasol a geirda wedi profi'n ffordd effeithiol o roi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau.



Oriau agor. Mae rhan fwyaf o'n arddangosfeydd ar agor am dri diwrnod yr wythnos o 10yb ----4yp. Rydym yn Ganolfan Allgymorth i Brifysgol Aberystwyth ar gyfer "Dysgu Gydol Oes" a byddant yn llogi "Ystafell Teifi" ar gyfer dosbarthiadau celf ar Ddydd Mercher a Dydd Gwener yn ystod amser tymor. Os bydd dosbarthiadau'n cael eu cynnal ni fydd y ganolfan ar agor i'r cyhoedd. Bydd gwahanol sefydliadau'n y gymuned leol yn llogi'r ganolfan , rhan fwy gyda'r hwyr, a fydd yn cynnig cyfleoedd ychwanegol i arddangosfa gael ei gwerthfawrogi gan gynulleidfa ehangach.

Manylion cyswllt Suzanne Hughes-Owen Suzanne.79@live.co.uk cyfeiriad 5 Barley Mow Llandysul Ceredigion SA44 4DE rhif ffôn (gyda'r hwyr yn unig) 01559364947. | **Noder** Mae'r oriel at ddefnydd pawb nid oes proses dethol.

Oriel Pwerdy/Powerhouse

Enw'r artist/ grwp	Manylion cyswllt cyfeiriad, e bost, rhif ffôn	Dyddiad cychwyn	Dyddiad gorffen	Cost

Llofnod yr artist	
Ar ran Oriel y Pwerdy	
Dyddiad	
Dull talu trwy siec os oes modd neu arian parod.	

Trwy gwblhau a llofnodi'r ffurflen yma rydych yn cytuno gyda'r amodau canlynol.

- Cyfrifoldeb yr artist **yn gyfangwbl** fydd yswiriant gogyfer a cholled neu ddifrod .
- Cyfrifoldeb yr artist fydd gosod a symud yr arddangosfa
- Cyfrifoldeb yr artist fydd unrhyw ddeunydd marchnata, a gwahoddiadau
- Cyfrifoldeb yr artist fydd trefnu arddangosfa breifat nid yw hyn yn orfodol. Gellir defnyddio byrddau a chadeiriau os bydd angen ac mae mynediad i'r gegin ac offer arlwyyo yn gynwysedig yn y pris.
- Mae dyddiad cychwyn a dyddiad cau yn cynnwys gosod a symud yr arddangosfa ac ail beintio'r waliau os bydd angen.

